Canolfan Organig Cymru
Organic Centre Wales

Taflen briffio Ffermio Organig a Pholisi Amaeth

1.1 Effaith diwygiadau CAP ar Ffermwyr Organig yng Nghymru

Dyma'r cyntaf mewn cyfres o nodiadau briffio achlysurol a fwriedir i hysbysu'r cyfranogion o faterion sy'n ymwneud â bwyd organig a pholisi ffermio.

Crynodeb

Bydd nifer o ffermwyr organig yng Nghymru yn derbyn llai o daliadau dan ddiwygiadau'r CAP na'u cymheiriaid confensiynol, er eu bod yn cyfrannu'n sylweddol at warchod yr amgylchedd a'r economi wledig ac yn cael eu hannog i drosi gan gymhellion o du'r llywodraeth i gyrraedd y targedau hyn.

Mae taliadau SPS llai gan gynhyrchwyr llaeth, ffermwyr llaeth organig a'r ffermwyr organig arloesol a aeth ati i drosi heb cymorthdal, oherwydd nid yw'r gweithdrefnau caledi wedi eu cymhwyso ar gyfer ystyried achosion o'u math

Bydd ffermwyr llaeth organig yn derbyn llai o daliadau SPS, oherwydd bod y taliadau yn seiliedig ar ddefnydd cyfredol o'r cwota. Oherwydd lefelau stocio is, y goblygiad yw taliadau yr hectare fydd yn is na'r ffermwyr confensiynol sydd yn parhau i ffermio'n ddwys.

Bydd ffermwyr sydd wedi trosi i ffermio organig ers amser, heb gymorth y llywodraeth, yn derbyn llai o daliadau SPS na'u cymheiriaid confensiynol, gan nad oeddent yn gyfranogwyr mewn cynlluniau amgylchedd amaeth ar yr adeg hynny, er eu bod yn awr yn gymwys i gael cymorth cynnal dan y cynllun amgylchedd amaeth ffermio organig.

Efallai fod ffermwyr wedi cysylltu gyda'u AS neu'r Undebau ynglyn a'r gwrthodiad i ailystyried taliad yr SPS sydd yn is na'r cyffredin oherwydd eu bod wedi ymuno gyda'r Cynllun Ffermio Organig (OFS). Gwrthodwyd y ceisiadau oherwydd dehongliad llym o rheoliadau'r UE: nid oedd ffermwyr a oedd wedi gostwng lefelau stocio yn gallu profi mae rheswm y gostyngiad oedd eu bod wedi ymuno a chynllun yr OFS[1]. Roedd yn ofynnol, cyn ymuno gyda'r OFS, fod y ffarmwr wedi cychwyn trosi, ac mewn llawer achlysur cyn cymeradwyo'r cais, bu oedi sylweddol wrth wneud y gwaith gweinyddol. Mae'r Cynulliad erbyn hyn yn derbyn, lle oedd oedi wrth wneud y gwaith gweinyddol wedi arwain at ostyngiad lefelau stocio cyn cymeradwyo'r cais, fod achosion o'r math yma bellach yn gymwys ar gyfer ystyriaeth newidiadau yn y taliadau.

[1] Disodlwyd y Cynllun Cymorth Organig gan y Cynllun Ffermio Organig (OFS), a gychwynodd ym mis Hydref 1999, ond caeodd y Cynllun y mis olynnol oherwydd nad oedd arian digonol (roedd nifer o geisiadau wedi eu derbyn cyn agoriad y cynllun newydd) ac roedd angen cymeradwyaeth y cynllun er mwyn cydymffurfio gyda Rheoliadau Datblygu Gwledig. Ni broseswyd yr un cais yn ystod 2000, ond annogwyd ffermwyr I drosi ac I wneud cais pan byddai'r cynllun yn ail gychwyn, a rhoddwyd gwarant na fyddai hyn yn dylanwadu'n ddrwg ar eu ceisiadau. O ganlyniad, roedd llawer ffarmwr wedi gostwng eu stoc ac wedi eu achredu ymhell cyn bod eu ceisiadau wedi eu prosesu. Bu oedi pellach yn y prosesu yn 2001 oherwydd Clwyf y Traed a'r Genau a'r angen rhoi'r flaenoriaeth I geisiadau cynlluniau arall.

Rydym wedi ceisio amlinellu'r materion cymhleth hyn mor glir â phosibl ond os hoffech eglurhad pellach, cysylltwch â Chanolfan Organig Cymru - gweler y manylion ar ddiwedd y papur hwn.

Y Materion dan sylw

1. Bydd ffermwyr llaeth organig yn derbyn llai o daliadau'r Cynllun Taliad Sengl yn y dyfodol na'u cymheiriaid confensiynol gan fod taliadau'r Cynllun uchod wedi'u pennu ar y cwota llaeth sy'n cael ei ddal, ac amherthnasedd strwythurau caledi yn yr achosion hyn.

Ni chafodd ffermwyr llaeth, gan gynnwys ffermwyr llaeth anorganig, eu cefnogi'n uniongyrchol gan daliadau CAP yn ystod y cyfnod cyfeiriadau (cafwyd cefnogaeth yn anuniongyrchol drwy systemau cynnal prisiau). Yn wahanol i fentrau eraill a gefnogir gan CAP, mae'r Rheoliad yn pennu lefelau taliadau'r Cynllun Taliad Sengl yn unol â'r cwota sy'n bodoli ym mis Mai 2005. Does dim peirianwaith ar gyfer caledi.

Oherwydd eu dulliau organig o reoli, mae'r cwota presennol ar gyfer pob hectar i ffermwyr llaeth organig fel arfer **yn is na'u cymheiriaid confensiynol mwy dwys**; felly byddant dan anfantais parhaus a bydd unrhyw ffermwr llaeth arall sy'n dymuno newid i gynhyrchu'n organig yn nes ymlaen yn debygol o dderbyn taliad Cynllun Taliad Sengl a all fod tipyn uwch na'r hyn a gaiff y ffermwr llaeth organig presennol. **Bydd hyn yn rhoi mantais gystadleuol i newydd-ddyfodiaid goruwch y rhai a newidiodd yn gynnar.**

Nid yw'r sefyllfa hon yn unigryw i ffermwyr llaeth organig - mae'n berthnasol i bob ffermwr llaeth sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amgylchedd amaeth lle gostyngwyd cyfraddau stocio, ond y gwirionedd yw mai ychydig iawn o ffermwyr llaeth arbenigol confensiynol a ymunodd â Thir Gofal neu gynlluniau eraill.

Roedd strwythur ar gael drwy'r *National Envelope* i gefnogi dulliau tebyg er parchu'r amgylchedd, ond gwrthodwyd yr opsiwn *Envelope* yn ei grynswth yn y DU.

Y Gronfa Genedlaethol yw'r opsiwn sydd ar ôl i ddelio â'r broblem hon: **mae darpariaeth wedi ei gwneud i ffermwyr sy'n cymryd rhan mewn cynlluniau amgylchedd amaeth a gyllidir yn genedlaethol**. Tra bod rhaid i'r Gronfa weithredu o fewn y rheolau a osodir gan Ewrop, ceir hyblygrwydd ynghylch pa feini prawf y gellir eu defnyddio i ddyrannu'r Gronfa Genedlaethol. Mae Erthygl 42 (4) o Reoliad 1782/2003 yn caniatáu defnyddio'r Gronfa Genedlaethol i bennu maint cyfeiriadau "*i ffermwyr sy'n canfod eu hunain mewn sefyllfa arbennig*". Gellir dadlau, o'r holl systemau amaethyddol, mai ffermio llaeth organig sy'n cynnig y manteision amgylcheddol mwyaf o'u cymharu â'u cymheiriaid confensiynol, **eto'i gyd bydd y ffermwyr hyn a ymunodd â chynllun amgylchedd amaeth, a ostyngodd eu defnydd cwota yr hectar, yn derbyn taliadau is yn awr na ffermwyr confensiynol neu'r rheini a allai drosi yn y dyfodol, a byddant yn dioddef yn y tymor hir** o dan ddiwygiadau CAP am eu penderfyniad. Byddai hyn yn ymddangos yn 'sefyllfa arbennig'. Dro ar ôl tro, mae Rheoliad 1782/2003 yn defnyddio'r ymadrodd “yn y fath fodd ag i sicrhau triniaeth gyfartal rhwng ffermwyr ac osgoi llurgunio yn y farchnad ac mewn cystadlaethau", ond eto'i gyd, bydd llurgunio cystadleuol yn dal i ddigwydd yng Nghymru

Nid peth newydd yw defnyddio systemau'r gronfa genedlaethol i gefnogi ffermwyr organig - cydnabuwyd priodoldeb posibl ffermio organig dan gynlluniau blaenorol y gronfa genedlaethol ar gyfer dyrannu cwotâu i gefnogi taliadau y pen am dda byw.

Cred y Grŵp Strategaeth Organig fod hyn yn fater pwysig sydd angen sylw er mwyn cynnal buddiannau amgylcheddol a buddiannau eraill a ddaw o gynhyrchu llaeth organig. Dylai ffermwyr a oedd yn cyfranogi mewn cynlluniau amgylchedd amaeth yn ystod 2005 gael hawl i fanteisio ar y Gronfa Genedlaethol.

2…Ffermwyr organig a drosodd heb gefnogaeth y llywodraeth

Dyma'r ffermwyr cyntaf i drosi. Nid oes gan y ffermwyr hyn unrhyw fodd i addasu eu taliadau Cynllun Taliad Sengl, sy'n is am iddynt fod yn bell-weledol a phenderfynu trosi, a hynny heb gymorth ariannol cynllun amgylchedd amaeth Ffermio Organig. Yn hytrach nag anwybyddu eu hachos am iddynt wneud eu 'penderfyniadau busnes' mae'n ymddangos yn foesol gyfiawn na ddylai eu penderfyniad i ffermio mewn modd sy'n fwy cyfeillgar at yr amgylchedd beri anfantais iddynt, yn enwedig o gofio iddynt ddilyn y llwybr hwn heb gefnogaeth y llywodraeth. Dylid ailystyried y dewis i ddefnyddio'r Gronfa Genedlaethol i gefnogi'r cynhyrchwyr hyn.

Diweddglo

Mae ffermio organig yn cynnig llawer o fanteision amgylcheddol, a gydnabyddir gan fodolaeth cynllun amgylchedd amaeth penodol i annog trosi i reoli'r tir yn organig, a pharhau i wneud hynny, er lles y cyhoedd. Eto'i gyd, gosodir cynhyrchwyr organig dan anfantais wrth i'r Cynllun Taliad Sengl gael ei weithredu, ac yn arbennig ei ddarpariaethau caledi mewn modd nad sy'n wir am y rhai sy'n cyfranogi mewn cynlluniau amgylchedd amaeth eraill.

Felly, mae'r Grŵp Strategaeth Organig yn mynnu bod y darpariaethau caledi yn cael eu gweithredu'n deg, a chydnabod bod y Cynllun Ffermio Organig wedi gofyn am drosi i ddechrau a chael ardystiad cyn gwneud cais ar gyfer y cynllun.

Hefyd, mae'r Grŵp Strategaeth Organig yn mynnu bod cynhyrchwyr llaeth organig a chynhyrchwyr organig tymor hir yn cael eu cynnwys yn y categorïau priodol ar gyfer hawl i'r gronfa genedlaethol.

Am eglurhad neu wybodaeth bellach, cysylltwch naill ai â Dr Nic Lampkin, Cyfarwyddwr nhl@aber.ac.uk neu Sue Fowler, Swyddog Polisi a Datblygiad smf@aber.ac.uk isod:

Canolfan Organig Cymru, Sefydliad y Gwyddorau Gwledig, Prifysgol Cymru, Campws Llanbadarn, Aberystwyth SY23 3AL. Ffôn: 01970 622248

www.organic.aber.ac.uk

Mae Canolfan Organig Cymru yn cyhoeddi e-fwletin. Ewch at www.organic.aber.ac.uk/bulletin.